

# Creu Mathau Newydd O Fynegiant Theatrigrig



## YMCHWILWYR

Dr Mike Brookes  
Yr Athro Mike Pearson

## THE OVERVIEW

Cynhyrchiad theatr ar raddfa fawr oedd *ILIAD* (2015), ac fe enillodd fri rhyngwladol. Cafodd ei greu gan Dr Mike Brookes a'r diweddar Athro Mike Pearson (1949-2022), a'i gomisiynu gan National Theatre Wales (NTW). Y weledigaeth oedd llwyfannu cerdd epig Christopher Logue 'War Music' yn ei chyfanrwydd, mewn dull amlgyfrwng; y tro cyntaf i destun Logue gael ei lwyfannu'n llawn. Ehangodd y cynhyrchiad y ffyrdd o berfformio barddoniaeth naratif epig yn y cyd-destun diwylliannol cyfoes, ac ymateb y diwylliant hwnnw iddo. Cynigiodd *ILIAD* brofiad theatrig 11 awr trochol ac eang i gynulleidfaedd, o fewn awditoriwm modern; a llywiodd weithdrefnau creadigol, technegol a gweinyddol ar gyfer arferion theatr wedi'i lleoli.

## YR YMCHWIL

Ymchwil ysgolheigaidd ac ar sail ymarfer tymor hir Dr Brookes a'r Athro Pearson oedd sail gwaith cysyniadol a chreadigol ar gyfer *ILIAD*. Roedd y gwaith yn cynnwys eu syniadau am fethodolegau ymarferol ar gyfer perfformiad safle-benodol a chreu perfformiad wedi'i leoli, a dulliau beirniadol a damcaniaethol o fynd i'r afael â nhw. Roedd datblygiad *ILIAD* yn nodi trobwynt, gan roi'r dulliau hyn ar waith o fewn prosesau llwyfannu a chynhyrchu awditoria theatr 'traddodiadol'. Ehangodd hyn waith ymchwil yr awduron i arferion theatr wedi'i lleoli a gwaith safle-benodol drwy roi sylw i natur benodol y theatr fel safle ynddo'i hun, yn benodol datblygiad awditoriwm newydd Theatr Ffwrnes yn Llanelli, trefn ofodol a defnydd posib y lleoliad, a chyd-destun ei swyddogaethau posib fel canolfan ddiwylliannol.

Arweiniodd hyn at ddulliau amlgyfrwng newydd o lwyfannu testun barddol; datblygiad cydweithredol arferion sinematograffig a chynhyrchu fideo penodol i brosiect, llunio pensaerniaeth sain weithredol ofodol a thechnegau lleisiol priodol ar gyfer amgylchedd cyfryngol cymhleth y gwaith.

Daeth y gwaith â thim dethol o ymarferwyr arbenigol a llai profiadol ynghyd, yn lleol a rhyngwladol, ac fe'i cefnogwyd gan brofiad helaeth Dr Brookes a'r Athro Pearson o gynhyrchu proffesiynol. Cafodd ei lywio hefyd gan ymchwil helaeth Dr Brookes ym maes gwaith celf byw a chyhoeddus rhyng-gyfryngol, sydd wedi'i gomisiynu a'i gyflwyno ledled Ewrop, Asia, Awstralia, De America a'r Unol Daleithiau.

## YR EFFAITH

### CYFOETHOGI GWERTHFAWROGIAD A DYCHYMYG Y CYHOEDD DRWY GYNHYRCHU MATHAU NEWYDD O FYNEGIANT ARTISTIG

Mae cydnabyddiaeth o lwyddiant *ILIAD* o du'r cyhoedd a'r diwydiant, yn tanlinellu pwynt allweddol: y gall theatr arloesol sy'n cael ei sbarduno gan ymchwil ac arferion celf gyhoeddus wedi'u lleoli - sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion theatrig - feddu ar apêl feirniadol a phoblogaidd sylweddol o gael eu cynnal yng nghydestun theatr genedlaethol. Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer y ddau berfformiad llawn o'r gwaith pedair rhan yn ei gyfanrwydd - y cyntaf yn ystod y dydd ar 26 Medi 2015, a'r ail dros nos ar 3 Hydref 2015. Derbyniodd y cynhyrchiad adolygiadau brwd, yn y wasg Gymreig a Phrydeinig, gan gynnwys adolygiad pum seren yn The Guardian, a nododd: '*ILIAD is certainly the theatrical event of the year. It may be the theatrical event of the decade*'.

Cafodd y cynhyrchiad ei gynnwys mewn casgliad o addasiadau theatr Roegaidd yn rhestr *The Independent* o ddeg digwyddiad diwylliannol gorau'r flwyddyn. Mae sylwadau ac ymateb y cyhoedd i berfformiadau llawn y gwaith, sy'n cynnwys ymateb gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant a fynychodd fel aelodau o'r gynulleidfa, yn tystio i'r effaith ar werthfawrogiad y cyhoedd.

Mae'r gwaith hefyd wedi cael effaith bwysig ar fywyd diwylliannol Cymru, yn enwedig datblygiad NTW, cwmni theatr Saesneg ei hiaith y genedl. Bu *ILIAD* yn gyfrifol am atgyfnerthu ac ehangu'n fawr ar gyfraniadau gwaith blaenorol gan Dr Brookes a'r Athro Pearson i amcanion y cwmni, gan ddangos ymhellach botensial a dichonoldeb gwaith cyd-destun penodol ym mhorthfolio NTW, fel modd i fynd i'r afael â chynulleidfaedd amrywiol gyda ffurfiau theatrig heriol, arloesol a chyfranogol.

### LLYWIO GWAITH RHAGLENNU A CHYNHYRCHU FFYRDD NEWYDD O FEDDWL SY'N DYLANWADU AR ARFERION CYNHYRCHU

Daeth y gwaith ag ystod eithriadol a lefel o arbenigedd ynghyd, o fewn tim o ymarferwyr technegol, creadigol a pherfformio rhagorol ac arobryn. Mae'r broses hefyd wedi integreiddio ystod yr un mor amrywiol o weithwyr proffesiynol ifanc a dibrofiad, gan gynnwys cynorthwyyr technegol a chynhyrchu, graddedigion creadigol diweddar a pherfformwyr ifanc lleol. Arweiniodd y cyfnewid hwn o gymorth a sgiliau arbenigol ymhlith y gweithwyr proffesiynol hyn at hwyluso gwerthoedd cynhyrchu cyson uchel a digyfaddawd, yn ogystal â gwireddu pensaerniaeth ac estheteg cyfryngol arloesol, cymhleth a thechnegol soffistigedig. Mae'r cydweithio a'r cyfnewid hyn wedi llywio arferion a phosibiliadau dilynol, nid yn unig i NTW, ond i'r cydweithwyr proffesiynol a'r ymarferwyr newydd eu hunain.

Er enghraifft, parhaodd un rhan o'r cast i gydweithio fel criw perfformio ar wahân, gan sicrhau cyllid a chomisiynau cyhoeddus er mwyn dal ati i gydweithio. Mae aelod arall oedd ynghlwm wrth waith sain *ILIAD* (ei brofiad cyntaf o weithio ar gynhyrchiad mawr) wedi mynd ymlaen i weithio'n helaeth gyda John Hardy Music, stiwdio gyfansoddi arobryn gyda llu o wobrau BAFTA, yn ogystal â chydweithio ymhellach gyda NTW.

